

## Maes Rhaglen Adeiladu a Pheirianeg, Coleg Meirion-Dwyfor

Mae darpariaeth yr adran yn cynnig yn bennaf gyrsiau galwedigaethol ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio ar lefel 2,3 a 4. Yn ychwanegol, mewn cydweithrediad gydag ysgolion, rydym yn cynnig cyrsiau peirianeg i ddisgyblion Blynnydoedd 10 ac 11. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant penodol i ddiwydiant ar ffurf cyrsiau byr.

Bwriad rhai o'n myfyrwyr yw datblygu eu sgiliau ymarferol, tra bod yn well gan eraill i ddatblygu eu sgiliau academaidd.

Mae yna rhwng 10 a 15 ymhob sesiwn dysgu yn dibynnu ar natur y gwaith h.y. prun ai yn weithdy neu ystafell ddosbarth.

Mae llwyddiant myfyrwyr o fewn yr adran yn ardderchog ac yn gyson uwchben cymaryddion cenedlaethol.

Mae'r pwyslais ar gefnogi dysgwyr yn ystod eu cwrs yn ogystal â'u hannog i gymryd rhan mewn cystadlaethau a phrosiectau cymuned.

Pennaeth yr adran yw Marius Jones. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am y cyrsiau Peirianeg ar draws campysau Dolgellau a Phwllheli, mae Marius hefyd yn gyfrifol am Adeiladwaith yn Nolgellau.

Bydd darlithydd yn dysgu'r hyn sy'n cyfateb i 835 awr bob blwyddyn yn ogystal â chydlynu un cwrs galwedigaethol. Fel sy'n arferol gyda swyddi addysgu, mae gofal bugeiliol yn rhan annatod o'r gwaith. Mae'n braf iawn eu gweld yn aeddfedu a datblygu eu sgiliau yn ystod eu hamser yma yn y coleg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am unedau lefel 3 a lefel 4. Gobeithio, bydd hyn yn rhoi rhyw syniad o'r pynciau y byddai gofyn i chi eu dysgu.

Mae'r diploma estynedig BTEC L3 yn cael ei redeg dros 2 flynedd gyda chymysgedd o unedau craidd cyffredinol, unedau mecanyddol ac unedau trydanol. Mae yna duedd ar hyn o bryd tuag at y mecanyddol ac mae yna ddymuniad i symud mwy tuag at y trydanol i gyfarfod â gofynion cyflogwyr lleol.

Mae HNC yn ddarpariaeth newydd yn rhedeg dros 2 flynedd ac unwaith eto rydym yn ceisio cyflwyno unedau trydanol/electronig.

Yr unedau trydanol rydym yn ceisio eu datblygu ar gyfer lefel 3 a 4 yw:

Egwyddorion Trydanol, Egwyddorion Electronig, Dyfeisiau Electronig, Technoleg Drydanol a Pheiriannau Trydanol. Gobeithio, bydd hyn yn rhoi rhyw syniad o'r pynciau y byddai gofyn i chi eu datblygu a'u dysgu.

## Maes Rhaglen Adeiladu a Pheirianeg, Campws Dolgellau

Gyda buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau ac adnoddau peirianeg mae gan ein myfyrwyr fynediad i weithdai, ystafelloedd addysgu modern, a meddalwedd cyfrifiadur arbenigol, gan wneud hyn yn amgylchedd delfrydol ar gyfer myfyrwyr peirianeg.

Mae'r adran wedi ei lleoli ar yr ystâd ddiwydiannol yng nghanol tref Dolgellau.



## Maes Rhaglen Adeiladu a Pheirianeg, Campws Pwllheli

Weithiau, mae gofyn i ddarlithwyr ddysgu rhai unedau yn yr adran Beirianeg ar gampws Pwllheli. Sylwer ni fydd teithio rhwng campysau yn ystod y diwrnod gwaith.

Mae'r adran Beirianeg wedi ei lleoli ar yr ystâd ddiwydiannol drws nesaf i'r Marina.



Mae'r ddarpariaeth beirianeg ym Mhwllheli yn canolbwyntio ar Beirianeg Forol ar Lefel 2 a 3. Fodd bynnag, mae'r Diploma Estynedig Lefel 3 BTEC yr un fath a'r cwrs yn Nolgellau. Gall hyn ganiatau staff i ddatblygu dysgu ar-lein ar gyfer y ddau gampws.



## Construction and Engineering Programme Area, Coleg Meirion-Dwyfor

The departments' provision offers mainly vocational courses for students who wish to study at level 2, 3 and 4. In addition, in collaboration with schools, we offer engineering courses to Year 10 and 11 pupils. We also offer specific training for industry in the form of short courses.

Some of our students' aim is to further their practical skills, whilst others prefer to develop their academic skills.

There are between 10 and 15 in each teaching session dependent on the nature of the work i.e. whether workshop or classroom.

Student success within the department is excellent and consistently above national comparators.

The emphasis is on supporting learners during their course as well as encouraging them to take part in competitions and community projects.

The head of department is Marius Jones. In addition to being responsible for the Engineering courses across the Dolgellau and Pwllheli campuses, Marius is also responsible for Construction in Dolgellau.

A lecturer will teach the equivalent of 835 hours per academic year as well as co-ordinating one vocational course. As is the norm with teaching posts, pastoral care is an integral part of the work. It is very rewarding to see them maturing and develop their skills during their time here at the college.

The successful applicant will be responsible for level 3 and level 4 units. Hopefully, this will give you some idea of the subjects you would be required to teach.

BTEC L3 extended diploma is run over 2 years with a mix of general core units, mechanical units and electrical units. There is currently a bias towards mechanical and there is a desire to move more towards electrical to meet local employer demands.

HNC is a new provision running over 2 years and again we are looking to introduce electrical/electronic units.

Electrical units we are looking to develop for level 3 and 4 are:

Electrical Principles, Electronic Principles, Electronic Devices, Electrical Technology and Electrical machines. Hopefully, this will give you some idea of the subjects you would be required to develop and teach.

## Construction and Engineering Programme Area, Dolgellau Campus

With significant investment in buildings and engineering resources our students have access to workshops, modern teaching rooms and specialist computer software, making this an ideal environment for engineering students.

The department is located on the industrial estate in the centre of Dolgellau town.



## Construction and Engineering Programme Area, Pwllheli Campus

On occasion, lecturers are required to teach some units in the Engineering department on the Pwllheli campus. Please note, there will be no travelling between campuses during the working day.

The Engineering department is located on the industrial estate next to the Marina.



The engineering provision in Pwllheli focuses on Marine Engineering at level 2 and 3. However, the level 3 BTEC extended diploma is the same as the course in Dolgellau. This may allow staff to develop on-line teaching for both campuses.

